**Ymateb ysgrifenedig Y Llywodraeth Cynulliad Cymru i Ymchwiliad y Pwyllgor Cyfle Cyfartal i Hygyrchedd Gorsafoedd Trefnau yng Nghymru**

**Cyflwyniad**

Rwy'n croesawu'r Adroddiad gan y Pwyllgor Cyfle Cyfartal sy'n cynnwys ei gasgliadau a'i argymhellion ar hygyrchedd gorsafoedd trenau yng Nghymru. Mae'r adroddiad yn gwella'n sylweddol ein dealltwriaeth o'r heriau o ran hygyrchedd sy'n ein hwynebu yn ein gorsafoedd yng Nghymru.

Hoffwn ailadrodd nad yw lefel yr hygyrchedd mewn gorsafoedd - gyda dim ond hanner ohonynt yn gwbl hygyrch - yn dderbyniol ar hyn o bryd, a hyd yn oed yn ystod y cyfyngiadau cyllidebol presennol, bydd Llywodraeth y Cynulliad yn parhau i fuddsoddi adnoddau i wella hygyrchedd gorsafoedd lle gallwn wneud hynny. Rydym yn ystyried hyn yn flaenoriaeth allweddol - dyma'r brif flaenoriaeth ar gyfer gwella'r rheilffyrdd o dan y Cynllun Trafnidiaeth Cenedlaethol - er, fel y nodais yn fy mhapur tystiolaeth ysgrifenedig, nid yw cyfrifoldeb strategol am hygyrchedd rheilffyrdd yn faes datganoledig ac mae'r Adran Drafnidiaeth (DfT) yn cadw'r cyllid ar ei gyfer.

Rydym yn ymrwymedig i fuddsoddi ein hadnoddau ein hunain yn y gwelliannau hyn gan ein bod o'r farn mai dyma'r peth cywir i'w wneud.

Enghraifft dda o'n hymrwymiad i wella hygyrchedd yw Rhaglen Gwella Gorsafoedd Cymru. Mae hon yn rhaglen gwerth £40 miliwn sy'n cynnwys £21 miliwn o gronfeydd Strwythurol Ewropeaidd ar gyfer gwella gorsafoedd yn ardaloedd Cydgyfeirio Cymru, sydd â nod craidd o sicrhau hygyrchedd o'r radd flaenaf. O dan y rhaglen hon, mae gennym raglen ar y gweill i osod gosodiadau Mynediad Haws ("Llwyfannau") mewn gorsafoedd bach ledled y Gymru wledig, er wyn delio â'r bwlch rhwng y platfform a'r trên sydd wedi bod yn broblem i bobl ers blynyddoedd. Pan fyddwn yn datblygu'r cynlluniau hyn, rydym yn hyrwyddo ac yn arfer cynnwys pobl anabl, grwpiau defnyddwyr a chymunedau mewn ffordd gynhwysol sy'n sicrhau canlyniadau cadarnhaol iawn. Mae eu barn a'u cyngor wedi arwain yn uniongyrchol at welliannau mewn dyluniad, a chawn adborth eu bod yn falch o fod yn rhan o'r broses.

Ers i Lywodraeth Cynulliad Cymru gael pwerau newydd i wella rheilffyrdd o dan Ddeddf Rheilffyrdd 2005, rydym wedi gwneud cynnydd da wrth fynd i'r afael â phroblemau mewn hygyrchedd. Mae hyn wedi cynnwys agor 11 o orsafoedd newydd, y mae pob un ohonynt yn gwbl hygyrch, a Rhaglen Gwella Gorsafoedd Cymru.

Rwy'n cydnabod mai megis dechrau y mae'r hyn a gyflawnwyd gennym hyd yn hyn. Mae angen i'r diwydiant rheilffyrdd fynd i'r afael â hanes o orsafoedd anhygyrch, a bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn parhau i chwarae ei rhan yn hyn. Byddwn yn parhau i fynegi i Lywodraeth y DU ein barn gref y dylai hygyrchedd gorsafoedd yng Nghymru fod yn flaenoriaeth uwch yn ystod Cyfnod Rheoli 5 sydd ar y gweill.

Rwy'n nodi ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru i argymhellion y Pwyllgor isod:

**Argymhelliad 1.** Mae'r Pwyllgor yn argymell i Lywodraeth Cymru ymgorffori materion hygyrchedd gorsafoedd mewn manylebau ar gyfer y cylch nesaf masnachfraint Cymru a'r Gororau. Dylai'r manylebau ddiffinio safonau disgwyliedig hygyrchedd y dylid eu blaenoriaethu yn ystod oes y fasnachfraint. Gellid diffinio safonau o'r fath ar gyfer gwasanaethau unigol, neu grwpiau o orsafoedd, a gellid eu selio ar ystod o ffactorau gan gynnwys gofynion teithwyr, y defnydd o'r orsaf a chostau disgwyliedig.

**Derbyniwyd**

Ysgrifennais at Gadeirydd y Pwyllgor ar 27 Gorffennaf 2010, gan ddweud bod Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi derbyn yn y dyfodol y dylai masnachfreintiau Cymru a'r Gororau ymgorffori gofyniad i'r fasnachfraint wella hygyrchedd gorsafoedd. Bydd ymgynghori helaeth ar y ffordd y dylid cymhwyso hyn - p'un ai o ran gorsafoedd unigol, grwpiau o orsafoedd a / neu faint o fuddsoddiad y dylai'r masnachfreiniwr ei wneud bob blwyddyn.

**Argymhelliad 2.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn parhau i geisio dylanwadu ar Lywodraeth y DU i flaenoriaethu gwelliannau hygyrchedd yng Nghymru wrth bennu allbynnau a chyllid Network Rail ar gyfer y cyfnod 2014-18.

**Derbyniwyd**

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn pwyso ar Lywodraeth y DU i dderbyn mai trydaneiddio rhwydwaith Caerdydd a'r Cymoedd a rhaglen o welliannau hygyrchedd sylweddol i'n gorsafoedd yng Nghymru a ddylai fod yn brif flaenoriaeth dros y Cyfnod Rheoli nesaf (Cyfnod Rheoli 5, o 2014 i 2018). Rwy'n parhau i bwyso am hynny gyda'r Adran Drafnidiaeth a byddaf hefyd yn pwyso am hynny gyda Swyddfa Rheoleiddio'r Rheilffyrdd pan fyddaf yn cwrdd â hi ym mis Ionawr 2011. Mae fy swyddogion yn rhan o drafodaethau manwl parhaus.

Bydd Llywodraeth y DU yn ymgynghori'n ffurfiol ar y blaenoriaethau ar gyfer Cyfnod Rheoli 5 ar ddechrau 2011 a byddaf yn cyhoeddi fy ymateb ffurfiol i'r ymgynghoriad hwnnw.

**Argymhelliad 3.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn ceisio sicrhau mwy o integreiddio rhwng y rhwydwaith rheilffyrdd a dulliau eraill o deithio. Gallai hyn gynorthwyo pobl anabl i drosglwyddo o un math o drafnidiaeth i fath arall.

**Derbyniwyd**

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ymrwymedig i sicrhau integreiddio gwell rhwng pob math o drafnidiaeth.  Mae hwn yn nod craidd o dan ein Cynllun Trafnidiaeth Cenedlaethol ac o dan Raglen Gwella Gorsafoedd Cymru gwerth £40 miliwn a buddsoddiadau eraill fel cynllun cyfredol cyfnewidfa Bangor.  Fy ngweledigaeth i yw bod mod i bawb, gan gynnwys pobl ag anableddau, wneud teithiau bach ar drafnidiaeth gyhoeddus i unrhyw le y mynnant.

**Argymhelliad 4.** Mae'r Pwyllgor yn argymell rhoi mwy o bwyslais ar gyhoeddi bodolaeth APRS, yn ogystal â bod yn fwy eglur am y gwasanaethau y mae'n eu cynnig.

**Derbyniwyd mewn Egwyddor**

Mater i'r Gymdeithas Cwmnïau Gweithredu Trenau (ATOC) a'r Cwmnïau Gweithredu Trenau (TOC) yw'r argymhelliad hwn. Hwy sy'n gyfrifol am y Cynllun Cadw i Deithwyr a Gynorthwyir (APRS) o dan ganllawiau cenedlaethol yr Adran Drafnidiaeth.  Mae ATOC wedi nodi'r argymhelliad hwn gan y Pwyllgor ac yn ei groesawu. Mae gan Lywodraeth Cynulliad Cymru gydberthnasau gwaith agos a chynhyrchiol gydag ATOC lle byddwn yn ei gynorthwyo i wella ei waith ymgysylltu â phobl a grwpiau defnyddwyr yng Nghymru ar eu hadolygiad o APRS.  Rydym hefyd yn gweithio gydag ATOC a'r Cwmnïau Gweithredu Trenau ar fonitro ansawdd a darpariaeth o dan APRS yn y dyfodol, ac ar hyfforddi staff rheng flaen TOC wrth gynorthwyo pobl anabl.

**Argymhelliad 5.** Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru ystyried cynnwys mesur ffurfiol o foddhad teithwyr anabl gydag APRS, a staff gorsafoedd, yng nghylch nesaf y fasnachfraint.

**Derbyniwyd**

Bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cynnwys ym manyleb masnachfraint nesaf Cymru a'r Gororau ofyniad i'r masnachfreiniwr fonitro lefelau boddhad teithwyr a chyflwyno adroddiadau arnynt yn rheolaidd. Byddwn yn ei gwneud yn ofynnol i'r masnachfreiniwr gytuno ar unrhyw gamau gweithredu sy'n ofynnol o ganlyniad i hynny â Llywodraeth Cynulliad Cymru.  Byddwn yn ymgynghori'n helaeth ar delerau'r fanyleb hon.

**Argymhelliad 6.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Llywodraeth yn annog awdurdodau lleol a chyrff cyhoeddus eraill yng Nghymru i weithio gyda'r diwydiant rheilffyrdd i wella nifer y bobl sy'n gwneud cais am gardiau rheilffordd pobl anabl.

**Derbyniwyd**

Bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn annog awdurdodau lleol a chyrff eraill i weithio gyda'r diwydiant rheilffyrdd i gynyddu nifer y bobl sy'n gwneud cais am gardiau rheilffordd pobl anabl.  Rydym hefyd yn credu bod rôl yn hyn o beth i gyrff cynrychioli a grwpiau defnyddwyr ar gyfer pobl anabl.

**Argymhelliad 7.** Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth o ran prinder canfyddedig mewn gwybodaeth, fel posteri a thaflenni mewn gorsafoedd, mewn perthynas â materion hygyrchedd. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod gwybodaeth ddigonol ar faterion hygyrchedd yn cael ei rhoi i bobl anabl mewn ystod o fformatau.

**Derbyniwyd mewn Egwyddor**

Mater i'r Cwmnïau Gweithredu Trenau yw'r argymhelliad hwn. Byddwn yn sicrhau bod ein masnachfreiniwr, Trenau Arriva Cymru (TAC) yn gwella'r wybodaeth sydd ar gael i gynorthwyo pobl anabl.

Rydym yn ymrwymedig i ariannu'r broses o gyflwyno Sgriniau Gwybodaeth Cwsmeriaid i bob gorsaf yng Nghymru o dan Raglen Gwella Gorsafoedd Cymru a thrwy fuddsoddiad gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

Ceir gwybodaeth ddefnyddiol iawn yng Nghanllaw ATW i Deithwyr Anabl - a elwir yn "Making Rail Accessible: Helping Older and Disabled Passengers" – ond dylid ei hyrwyddo'n well. Byddwn yn gweithio gydag ATW, cyrff cynrychioli a grwpiau defnyddwyr ar gyfer pobl anabl i sicrhau ei fod yn fwy adnabyddus a bod defnydd gwell ohono.

**Argymhelliad 8.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod materion ansawdd y gwasanaeth yn cael eu hymgorffori yn y fanyleb ar gyfer cylch nesaf y masnachfreintiau. Dylid disgwyl i geiswyr am y fasnachfraint amlinellu eu targedau ansawdd gwasanaeth, a dynodi sut y maent yn bwriadu monitro eu perfformiad yn y maes hwn, o bosibl drwy fesur yn gyson ganfyddiadau teithwyr.

**Derbyniwyd**

Mewn manylebau ar gyfer masnachfreintiau Cymru a'r Gororau yn y dyfodol bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i'r masnachfreiniwr nodi targedau ansawdd gwasanaeth o ran cymorth a gwybodaeth i deithwyr anabl ac i gyflwyno adroddiadau ar gynnydd yn erbyn y targedau hyn. Byddwn yn ymgynghori'n helaeth ar delerau'r fanyleb hon.

**Argymhelliad 9.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y rhesymau am yr oedi wrth gyflawni rhaglenni Mynediad i Bawb yn cael eu hegluro, a bod unrhyw wersi yn cael eu hymgorffori yn y broses gynllunio ar gyfer cynlluniau gwelliant yn y dyfodol.

**Derbyniwyd**

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi gofyn i'r Adran Drafnidiaeth a Network Rail, sy'n gyfrifol am y rhaglen Mynediad i Bawb, ysgrifennu'n ffurfiol at Gadeirydd y Pwyllgor i egluro'r oedi wrth ddatblygu gwelliannau yng ngorsafoedd Cymru o dan y rhaglen Cynlluniau Mawr a'r gwersi a ddysgwyd, y cânt eu cymhwyso i welliannau yn y dyfodol.

**Argymhelliad 10.** Mae'r Pwyllgor yn argymell i bob rhanddeiliad ystyried dulliau o wella cyfranogiad presennol pobl anabl mewn materion cynllunio a monitro hygyrchedd.

**Derbyniwyd**

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru a'i phartneriaid yn y diwydiant rheilffyrdd yn ceisio cyflawni statws drwy esiampl, ac wrthi'n cynnwys pobl anabl yn y gwaith o wella cynllunio rheilffyrdd ac wrth fonitro materion hygyrchedd.

Mae cynllun cyfredol Rhaglen Gwella Gorsafoedd Cymru ar gyfer moderneiddio Gorsaf Stryd Fawr Abertawe yn enghraifft dda o hyn. Yn dilyn Teithiau Rheilffordd Hygyrchedd Llywodraeth Cynulliad Cymru, y cyfeirir atynt ym mhapur tystiolaeth y Llywodraeth, cynhaliwyd cyfres o drafodaethau manwl ac ymweliadau safle yn cynnwys holl bartneriaid y cynllun a grwpiau defnyddwyr lleol. O ganlyniad, mae newidiadau i ddyluniad a gwelliannau i'r prosiect a wnaed fel bod, er enghraifft, gyfleuster "Lleoedd Newid" [1]bellach wedi'i ymgorffori yn y cynllun i adlewyrchu'r un a ddarperir yng ngorsaf fysiau newydd Quadrant a lleoedd eraill yn Abertawe. Mae'r cyfranogi hwn yn cael ei ehangu i gynnwys pobl sydd â nodweddion a ddiogelir o dan y Ddeddf Cydraddoldeb newydd.

Enghraifft arall sy'n ymwneud â chynllun presennol yw'r ymgynghoriadau cymunedol anffurfiol dwys a gynhaliwyd yn y ddau Osodiad Hygyrchedd Haws ("llwyfannau") peilot yn Aberdyfi a'r Fali, a'r ymgynghoriad diweddar ar y rhaglen arfaethedig i gyflwyno'r gosodiadau hyn ym mhob gorsaf wledig sydd â phlatfform i ddatrys y broblem o gamu i fyny i'r trên y flwyddyn nesaf.

Yn ogystal â hyn, ar hyn o bryd mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn llunio canllawiau ar ofynion hygyrchedd sylfaenol ar gyfer yr adeiladau y mae'n buddsoddi ynddynt. Yn y dyfodol bydd yn ei gwneud yn ofynnol i bawb sy'n cael arian gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer gwella'r rheilffyrdd ymgysylltu â phobl anabl a phobl sydd â nodweddion a ddiogelir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Bydd hyn yn adeiladu ar y gofynion presennol ar gyfer cynnal Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb o dan broses cymeradwyo trafnidiaeth WelTAG ac ar gyfer pob cynllun o dan Raglen Gwella Gorsafoedd Cymru.

[1] Cyfleuster ymolchi cwbl hygyrch i bobl anabl a'u cymheiriad yw hwn sydd ag achrediad cenedlaethol.

Yn ogystal â hyn, fel y nodir yn yr Ymateb i Argymhelliad 4 uchod, rydym wrthi'n gweithio'n agos gydag ATOC i ymgysylltu â phobl a grwpiau defnyddwyr yng Nghymru gydag adolygiad APRS presennol ATOC.

O ran cynnwys pobl anabl mewn materion monitro hygyrchedd, mae hyn yn rhywbeth y mae Llywodraeth y Cynulliad yn ceisio'i ddatblygu o dan y rhaglen waith ddrafft ar gyfer y Pwyllgor Defnyddwyr Trafnidiaeth Gyhoeddus newydd.

**Casgliad**

Yn ein tystiolaeth ysgrifenedig a llafar i'r Pwyllgor, dywedodd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn glir fod lefel bresennol hygyrchedd yng ngorsafoedd trenau Cymru yn annerbyniol. Yn unol â hynny, rydym yn gwneud y cynrychioliadau cryfaf posibl i Lywodraeth y DU am flaenoriaethu'r gwelliannau pellach sydd eu hangen arnom.

O dan ein rhaglenni buddsoddi ein hunain, rydym yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol, o ran cynnwys pobl anabl yn fwy, ond derbyniwn, am resymau sy'n ymwneud â hanes a graddau datganoli cyfrifoldeb a chyllid, fod llawer i'w wneud.

Edrychwn ymlaen at gynorthwyo'r Pwyllgor ymhellach gyda'i Ymchwiliad cyfredol i'r polisi ar hygyrchedd trafnidiaeth gyhoeddus.

**Ieuan Wyn Jones, y Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth**